*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Jess Daniel - Gwasanaethau Democrataidd (07385401877)

Bydd cyfarfod rhithwir o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 25AIN TACHWEDD, 2021** am **3.00 PM.**

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 23 TACHWEDD 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION 07.10.21**

Cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2021.

**5 - 14**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5. CAIS RHIF: 20/1380**

Cabanau glampio i'w gosod ar gyfer gwyliau (cynlluniau diwygiedig cyf. 26/01/2021) (Cynllun Trefniant Draenio Carthffosiaeth cyf. 30/07/21)
**Fferm Pencaedrain, Teras Dinas i Goed Wernhir, Rhigos, Aberdâr, SA11 5NF**

**15 - 26**

**6. CAIS RHIF: 21/1108/10**

Estyniad deulawr arfaethedig i gefn yr eiddo.
**45 Clos Brenin, Brynsadler, Pont-y-clun, CF72 9GA**

**27 - 32**

**7. CAIS RHIF: 21/1122/10**

Cadw deciau a ffens yr ardd gefn.
**86 Y Cwmwd, Cwmdâr, Aberdâr, CF44 8AQ**

**33 - 38**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**8. CAIS RHIF: 21/1208/10**

Adeiladu annedd newydd gyda garej ynghlwm.
**Tir ger Cartref Melys, Heol Llechau, Aberllechau, Porth, CF39 0PP**

**39 - 46**

**ARCHWILIAD O'R SAFLE**

**9. CAIS RHIF: 21/0591/10**

Bloc Stablau a Manège (Tystysgrif Perchenogaeth 'B' diwygiedig wedi dod i law ar 7 Gorffennaf 2021. Cynlluniau diwygiedig â newidiadau i'r safle - ailosod y bloc stablau a lleihau ei faint wedi dod i law ar 31 Awst 2021)
**Tir i'r de o 25-41 Stryd Kennard, Tonpentre, Pentre**

**47 - 64**

**CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

**10. CAIS RHIF: 21/1088/10**

Llwyfan wedi'i godi yng nghefn cartref preswyl 3 llawr i'w ddefnyddio fel dihangfa dân. (21/0442/10 wedi'i ailgyflwyno - Derbyniwyd y cynllun yn rhoi manylion am ffens â sgrin arfaethedig ar 13/09/2021).
**25 Stryd Thomas, Tonypandy, CF40 2AH**

**65 - 72**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**11. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 25/10/2021 – 12/11/2021

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**73 - 88**

**12. MATERION BRYS**

To consider any items which the Chairman by reason of special circumstances is of the opinion should be considered at the Meeting as a matter of urgency.

**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**<u>Cylchrediad:-</u>**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd D Williams, Y Cynghorydd W Lewis ac Y Cynghorydd S Powderhill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Uwch Beiriannydd